Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) – gwanwyn 2021

Mawrth 2021



# Gwaith ymgysylltu:  Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) – gwanwyn 2021

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o 25 o alwadau ffôn ymgysylltu a wnaed i ysgolion arbennig a gynhelir ac UCDau rhwng diwedd mis Hydref 2020 a dechrau mis Chwefror 2021.  Ar hyd y cyfnod hwn, mae arweinwyr yn cadarnhau bod eu hysgolion ac UCDau wedi aros ar agor, gan gynnwys yn ystod y cyfnod clo diweddar, i ddarparu addysg i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr hanfodol, yn unol ag arweiniad perthnasol Llywodraeth Cymru.  Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol ledled Cymru o ran cyfran y disgyblion y nodwyd eu bod yn gymwys i fynychu'r ysgol neu'r UCD yn rheolaidd ar gyfer darpariaeth ar y safle.  Oherwydd y cyfyngiadau y mae canllawiau iechyd a diogelwch yn eu rhoi ar gapasiti, ni fu'n bosibl i ysgolion arbennig a gynhelir yn benodol ymateb yn llawn i geisiadau rhieni am leoliadau.  Yn ogystal, mae awdurdodau lleol wedi dehongli arweiniad Llywodraeth Cymru y dylai'r lleoliadau hyn aros ar agor i gefnogi dysgwyr bregus yn wahanol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell â phenaethiaid ac uwch arweinwyr.  Prif ffocws y drafodaeth oedd sut mae ysgolion ac UCDau yn parhau i gefnogi a hybu lles a dysgu eu disgyblion.

Mae'r cyfrannau'n perthyn i'r sampl o 25 o ysgolion ac UCDau yr ydym wedi cysylltu â nhw.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Cynnwys


**Negeseuon allweddol** **1**

Hyrwyddo lles disgyblion a staff 1
Hyrwyddo dysgu 1
Darpariaeth a therapi 2
Dysgu proffesiynol 3

**Canfyddiadau manwl a chameos** **3**

Hyrwyddo lles disgyblion a staff 3
Lles disgyblion 3
Cefnogi lles rhieni a gofalwyr 5
Presenoldeb 6
Hyrwyddo lles staff 6

Hyrwyddo dysgu 7

Addysgu 7
Darpariaeth ar-lein 8
Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu 9
Monitro ansawdd addysgu 9
Monitro ymgysylltiad disgyblion 10
Profiadau dysgu 12
Darpariaeth ar gyfer medrau 13
Ymatebion i gyfyngiadau 13
Darpariaeth ar gyfer tiwtora gartref 14
Cyrchfannau a phontio 15
Cwricwlwm i Gymru 15

Darpariaeth a therapi 16

Dysgu proffesiynol 18

# Negeseuon allweddol

## Hyrwyddo lles disgyblion a staff

Mae arweinwyr ym mron pob UCD ac ysgol arbennig yn cadarnhau eu bod yn parhau i flaenoriaethu lles disgyblion a mireinio'r dulliau llwyddiannus y maent wedi'u datblygu ers dechrau'r pandemig i gefnogi disgyblion ar y safle ac o bell. Maent yn disgrifio ystod o ddulliau ac ymyriadau i danategu lles disgyblion, gan gynnwys diwygio cyfrifoldebau staff dros les a galwadau ymgysylltu â disgyblion unigol a'u teuluoedd.

Serch hynny, mae llawer o arweinwyr UCDau yn cadarnhau bod cymhlethdod anghenion eu disgyblion wedi dod yn fwy amlwg dros amser. Er enghraifft, maent yn sôn am gynnydd o ran lefelau gorbryder disgyblion yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol diweddar, ac o ran atgyfeiriadau i ddisgyblion ag anawsterau iechyd meddwl y mae angen iddynt gael eu tiwtora gartref.

Mae arweinwyr bron pob ysgol arbennig ac UCD yn parhau i gadarnhau bod eu perthynas â theuluoedd wedi cryfhau'n sylweddol ers dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn nodi bod rhieni'n sôn am bwysau cynyddol o ran rheoli dysgu gartref yn ystod y cyfnod clo diweddar hwn. Er bod y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig yn cadarnhau bod presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael darpariaeth ar y safle yn ystod y cyfnod hwn yn dda, dywed llawer o arweinwyr yn yr UCDau y cysylltwyd â nhw fod presenoldeb disgyblion ar gyfer darpariaeth ar y safle yn isel, yn gyffredinol.

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod cynnal lles staff yn flaenoriaeth allweddol o hyd. Disgrifia'r rhan fwyaf o arweinwyr fel y maent wedi addasu ac wedi bodloni anghenion iechyd a chyfrifoldebau gofalu penodol staff. Maent yn disgrifio ystod o strategaethau a roddwyd ar waith i gefnogi lles staff a rheoli pryderon.

## Hyrwyddo dysgu

Mae arweinwyr ym mron pob ysgol arbennig ac UCD yn crybwyll bod staff wedi adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf i wella cydlynu a chyflwyno addysgu ar gyfer dysgu ar y safle ac o bell, gan gynnwys ar-lein a chopïau papur o becynnau dysgu o bell. Maent yn cadarnhau bod darpariaeth yn parhau i gael ei harwain gan anghenion disgyblion unigol yn yr ysgol neu'r UCD o hyd, a bod ffocws cryf ar ddatblygu'r medrau a nodwyd yng nghynllun addysg unigol pob disgybl.

At ei gilydd, mae staff addysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig ac UCDau yn parhau i ddarparu cymysgedd o weithgareddau ar-lein a phecynnau o adnoddau dysgu i ddisgyblion a'u teuluoedd ymgysylltu â nhw. Ma llawer o arweinwyr ar draws y ddau fath o leoliad yn disgrifio sut mae staff wedi cynyddu a mireinio'r defnydd o blatfformau digidol i wella addysgu a phrofiadau dysgu. Fodd bynnag, mae arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau yn parhau i sôn am anawsterau o ran darparu dysgu ar-lein ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Dywed llawer o arweinwyr UCDau y bu mwy o alw gan ddisgyblion a rhieni am gopïau papur o becynnau dysgu, yn hytrach na chymryd rhan mewn dysgu ar y safle neu ar-lein.

Mae llawer o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn amlinellu bod staff wedi cryfhau strategaethau ymhellach i helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu eu plant. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cadarnhau bod yr heriau y mae llawer o rieni a gofalwyr yn eu hwynebu wrth gefnogi dysgu eu plant gartref wedi cynyddu ers y cyfnod clo cenedlaethol blaenorol.

Ym mron pob achos, mae arweinwyr yn cadarnhau eu bod yn monitro lefelau ymgysylltiad disgyblion yn ystod yn ystod y cyfnod clo hwn. At ei gilydd, mae arweinwyr ysgolion arbennig yn haeru bod ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu yn dda. Fodd bynnag, mae llawer o arweinwyr UCDau yn crybwyll bod lefelau ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu yn amrywio.

Dywed arweinwyr ym mhob pob UCD ac ysgol arbennig eu bod yn parhau i addasu i orchmynion cyfnewidiol y pandemig drwy gynnig ystod mor eang â phosibl o brofiadau dysgu i adlewyrchu gwahanol anghenion disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau fath o leoliad yn parhau i fynegi pryderon ynghylch effaith culhau'r cwricwlwm oherwydd y pandemig ar ddatblygu medrau disgyblion. Yn benodol, maent yn crybwyll y cafwyd effaith ddifrifol ar sesiynau medrau yn gysylltiedig â gwaith a sesiynau medrau bywyd ymarferol.

Ar draws y ddau fath o leoliad, mae arweinwyr yn crybwyll bod disgyblion hŷn yn benodol wedi dioddef gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar ystod o gymorth a phrofiadau dysgu sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Mewn rhai achosion, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cais am leoliadau coleg oherwydd eu bod yn amharod i feddwl am eu camau nesaf. O ganlyniad, mewn tua hanner yr UCDau, mae arweinwyr yn poeni am y cynnydd posibl yn nifer y disgyblion hynny a all ymddieithrio o addysgu, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) ar ôl iddynt orffen eu lleoliad yn yr UCD.

Er bod y rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau fath o leoliad yn cadarnhau bod athroniaeth, egwyddorion a dibenion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymry wrth wraidd eu gwaith, dywed llawer o arweinwyr fod cynnydd o ran paratoi ar gyfer ei roi ar waith ar gamau amrywiol o'i ddatblygu.

## Darpariaeth a therapi

Yn gyffredinol, mae bron pob arweinydd ar draws y ddau fath o leoliad yn cadarnhau bod prosesau statudol ar gyfer adolygiadau blynyddol wedi parhau i gael eu cynnal drwy gydol y pandemig, yn unol â'r amserlenni gofynnol. Mae cyfarfodydd amlddisgyblaethol rhwng cynrychiolwyr o'r ysgol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd wedi parhau drwy gydol y pandemig i gefnogi anghenion disgyblion a nodwyd. Fodd bynnag, mae llawer o arweinwyr yn mynegi pryderon ynghylch arafwch a graddau cyfyngedig dychwelyd i weithio wyneb-yn-wyneb. Maent yn disgrifio fel mae'r rhan fwyaf o gymorth gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn parhau i gael ei gynnig drwy blatfformau ar-lein, ac ni fu llawer o newid o ran sut mae gwasanaethau'n gweithredu ers y cyfnod clo cyntaf.

Mae arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn parhau i bwysleisio'r effaith ar gynnydd a datblygiad disgyblion lle mae gwasanaethau'n cynnig cwnsela ac ymyriadau ar-lein yn unig. Er bod arweinwyr yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth hon, at ei gilydd, mae bron pob un ohonynt yn pwysleisio'r farn nad yw cymorth ar-lein yr un mor effeithiol â gweithio wyneb-yn-wyneb o ran bodloni anghenion disgyblion. Mae

ychydig o arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau yn adlewyrchu'r rhwystredigaeth a fynegwyd gan staff ysgolion ynghylch disgwyliadau gwahanol staff ysgolion a staff arbenigol awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer gweithio wyneb-yn-wyneb â disgyblion.

### Dysgu proffesiynol

Mae bron pob arweinydd ar draws y ddau fath o leoliad yn crybwyll eu bod wedi parhau i gynnig rhaglen eang ac amrywiol o weithgareddau dysgu proffesiynol perthnasol i gefnogi anghenion disgyblion yn ystod cyfnod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gofynnol mewn meysydd gorfodol, fel diogelu a hylendid bwyd, yn ogystal â datblygiad proffesiynol ysgol gyfan i fodloni blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella strategol yr ysgol neu'r UCD.

Disgrifia tua hanner yr arweinwyr yn y ddau sector sut maent wedi parhau i gryfhau cyfleoedd i staff ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i gefnogi iechyd meddwl a gwydnwch disgyblion a staff. Mae'r pwyslais hwn yn adlewyrchu pryderon ynghylch effaith y pandemig ar les emosiynol a meddyliol disgyblion. Mewn lleiafrif o leoliadau ar draws y ddau sector, mae arweinwyr yn cadarnhau mai prif ffocws datblygiad proffesiynol dros yr ychydig fisoedd diwethaf fu datblygu ymagweddau tuag at ddefnyddio platfformau ar-lein i gefnogi dysgu o bell a chynnal cyfarfodydd.

## Canfyddiadau manwl a chameos

### Hyrwyddo lles

#### Lles disgyblion

Mae arweinwyr ym mron pob ysgol arbennig ac UCD yn cadarnhau eu bod yn parhau i flaenoriaethu lles disgyblion a mireinio'r dulliau llwyddiannus y maent wedi'u datblygu dros amser i gefnogi disgyblion ar y safle ac o bell. Er enghraifft, disgrifia llawer ohonynt sut maent wedi cryfhau ymagweddau tuag at gofnodi a monitro lles disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n dysgu gartref, yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol hwn, gan gynnwys diwygio cyfrifoldebau staff dros alwadau lles ac ymgysylltu â disgyblion unigol a'u teuluoedd. Mae llawer o leoliadau wedi nodi a dewis staff allweddol i gysylltu â theuluoedd yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys galwadau ffôn ac ymweliadau ar drothwy'r drws, yn dibynnu ar anghenion y teulu.

Dywed arweinwyr yn **UCD Abertawe** sut maent wedi addasu cyfrifoldebau cynorthwywyr addysgu i gynnig mwy o gefnogaeth lles i ddisgyblion, gan gynnwys dynodi 'gweithwyr allweddol yr UCD'. Erbyn hyn, mae gan bob disgybl weithiwr allweddol i gynnig cefnogaeth lles gryfach iddynt. Mae gweithwyr allweddol yr UCD yn cysylltu â'r grŵp o ddisgyblion mwyaf bregus bob dydd, a phob dau neu dri diwrnod neu'n wythnosol â'r disgyblion eraill, yn dibynnu ar eu hanghenion. Caiff galwadau ffôn eu disodli gan ymweliadau ar drothwy'r drws gan weithiwr allweddol yr UCD os nad yw disgybl a'i deulu/theulu ar gael. Mae gweithwyr allweddol yr UCD hefyd yn danfon pecynnau dysgu ac yn mynd trwy dasgau gwaith â disgyblion. Mae'r cysylltiad hwn ar ben cysylltiad gan y staff addysgu.

Yn yr un modd, mae arweinwyr mewn ychydig o ysgolion arbennig yn disgrifio sut mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn cydweithio'n agos â theuluoedd i ddarparu parhad cymorth wyneb-yn-wyneb yn ogystal ag yn rhithiol.

Yn **Ysgol Bryn Derw,** mae rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi dod yn gynyddol bwysig yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyfredol. Mae'n cynnig dull amgen i rieni a gofalwyr gyfleu eu hanghenion cymorth. Mae'r ysgol wedi defnyddio ei gyllid grant recriwtio, adfer a chodi safonau i ddatblygu'r rôl hon. Mae'r ysgol yn elwa ymhellach ar gyfraniad gweithiwr cymorth Barnado's, sy'n gweithio yn yr ysgol un diwrnod yr wythnos i gefnogi gwaith y swyddog ymgysylltu â theuluoedd.

Mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector yn disgrifio sut maent yn parhau i ddatblygu ystod o ddulliau ac ymyriadau i hyrwyddo lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau wedi'u llywio gan drawma, strategaethau i ddatblygu gwydnwch a defnyddio medrau staff mewn meysydd fel cwnsela a mentora. Mae llawer o arweinwyr yn sôn am fanteision bod â'u staff eu hunain sydd wedi'u hyfforddi ac yn gymwysedig i ddefnyddio'r dulliau hyn, yn enwedig gan fod y gallu i fanteisio ar wasanaethau arbenigol yn anghyson. O ganlyniad, mae llawer o arweinwyr yn crybwyll y gallant ddarparu cymorth mwyfwy unigol ar gyfer anghenion lles disgyblion. Er enghraifft, mae un UCD yn darparu sesiynau un-i-un ac mewn grwpiau bach ar feddylgarwch, tra mae llawer o rai eraill yn cydbwyso gweithgareddau dysgu â sesiynau cymdeithasol ac iechyd emosiynol a lles i bob disgybl.

Dywed ychydig o arweinwyr eu bod wedi mireinio eu monitro ffurfiol o les disgyblion ymhellach, er enghraifft drwy ddefnyddio eu hoffer asesu lles ar-lein.

Mae staff yn **Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin** yn defnyddio offeryn ar-lein sy'n nodi, asesu ac yn mynd i'r afael ag iechyd emosiynol a lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ganfod gwaelodlin lles ar gyfer ei disgyblion, a nodi strategaethau cymorth priodol i ddisgyblion. Mae'r data a goladwyd yn awgrymu bod llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ofn, panig a gorbryder ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn addasu ei hamserlen ddarpariaeth i sicrhau ymyriadau therapiwtig ar gyfer disgyblion a nodwyd. Caiff y ddarpariaeth hon ei chyflwyno gan staff cymorth cymwysedig yn yr ysgol ac o bell. Ym marn y pennaeth, mae cymorth lles i ddisgyblion wedi dod yn fwyfwy unigol ac ymatebol.

Mae llawer o arweinwyr ysgolion arbennig, yn benodol, yn manylu ar y trefniadau helaeth y mae staff yn eu gwneud er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyriadau therapiwtig i gefnogi lles disgyblion sy'n dysgu gartref.

Yn **Ysgol y Gogarth**, mae ystod eang o staff cymorth arbenigol yn helpu i ddarparu ymyriadau targedig o bell. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n gyfrifol am dechnoleg gynorthwyol, iaith, lleferydd a chyfathrebu, codi a chario, y swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, a'r tîm dadansoddi ymddygiad. Mae'r aelodau staff hyn yn llunio arweiniad ac adnoddau unigol, sy'n cynnig cyfleoedd i drafod a chydweithio â theuluoedd i fynd i'r afael ag ystod o heriau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cynnal a chadw dyfeisiau i gefnogi

symudedd disgyblion, adnoddau iaith a lleferydd penodol, cynlluniau ymddygiad a rhaglenni symud a ddatblygwyd ar gyfer y cartref. Yn ogystal â chysylltiad uniongyrchol â theuluoedd, mae'r timau hyn yn cynnig arweiniad cyffredinol ac adnoddau digidol ychwanegol, ac yn trefnu bod y rhain ar gael drwy nifer o blatfformau ar y we.

Fodd bynnag, er gwaethaf y trefniadau hyn, mae llawer o arweinwyr mewn UCDau yn cadarnhau bod cymhlethdod anghenion eu disgyblion wedi dod yn fwy amlwg dros amser. Er enghraifft, maent yn sôn am gynnydd cyffredinol o ran lefelau gorbryder disgyblion yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol hwn. Yn benodol, dywed sawl arweinydd sy'n gyfrifol am reoli gwasanaethau tiwtora gartref fel rhan o ddarpariaeth yr UCD a'r awdurdod lleol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol y bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl y mae angen tiwtora gartref arnynt. Mewn ychydig iawn o achosion, mae arweinwyr yn crybwyll y rhoddwyd disgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol a'u bod yn gwrthod cynigion i ddychwelyd i'r UCD, a bod staff yn cydweithio'n agos â staff gofal cymdeithasol, asiantaethau eraill a'r disgyblion hyn yn i gefnogi eu lles a'u cynorthwyo i ddychwelyd i addysg yn ddiogel.

Disgrifia'r rhan fwyaf o arweinwyr sut maent yn parhau i gynnal newidiadau i arferion ysgolion a'r amgylchedd dysgu ffisegol, er mwyn rhoi gweithdrefnau hylendid cadarn ar waith a hyrwyddo cadw pellter cymdeithasol, yn unol â'r arweiniad gweithredol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae arweinwyr ysgolion arbennig yn benodol yn parhau i fynegi pryderon ynghylch effaith mesurau iechyd a diogelwch ar gyfleoedd i ddisgyblion ryngweithio'n gymdeithasol pan maent yn yr ysgol, neu gynnal cyfeillgarwch â'u cyfoedion pan maent yn dysgu gartref. Mae arweinwyr yn parhau i fyfyrio ar sut gallant wneud iawn am y cyfleoedd coll hyn, er enghraifft drwy gynnwys cyfleoedd mwy cyson i ddisgyblion gyfathrebu â'i gilydd ar-lein.

### Cefnogi lles rhieni a gofalwyr

Mae arweinwyr bron pob un o'r ysgolion arbennig a'r UCDau yn cadarnhau bod perthnasoedd â theuluoedd wedi cryfhau'n sylweddol ers dechrau'r pandemig. Maent yn disgrifio sut mae trefniadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad, a chefnogi eu disgyblion â'u teuluoedd, wedi esblygu yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol hwn. Dywed llawer o arweinwyr fod galwadau lles staff wedi nodi pan fydd teuluoedd yn cael trafferth â'u plentyn gartref heb y strwythur, trefn a'r cymorth a ddarperir gan bresenoldeb rheolaidd ar safle'r ysgol neu'r UCD. Maent yn disgrifio sut mae hyn yn galluogi'r lleoliad i gynnig cymorth ychwanegol i'r disgybl a'r teulu. Er enghraifft, mae un UCD wedi parhau â'i chymorth dwys i rieni drwy addasu darpariaeth ei rhaglen i rieni ar y safle i gynnig sesiynau rhithiol i rieni a'u plant. Mae'r dull hwn yn cryfhau ymgysylltiad rhieni â phrofiadau eu plentyn yn yr UCD, wrth leihau problemau ymddygiadol a hybu eu hymgysylltiad â dysgu.

Disgrifia'r rhan fwyaf o arweinwyr y bu'r berthynas waith empathetig a chadarnhaol rhwng staff, disgyblion a'u teuluoedd yn allweddol o ran hyrwyddo lles emosiynol disgyblion, yn ogystal â meithrin ymddiriedaeth yn ystod cyfnod o straen sylweddol ar deuluoedd. Mae llawer ohonynt yn amlinellu sut mae staff wedi gwneud "y tu hwnt i'r disgwyl" yn gyson i fynd i'r afael ag anghenion a phryderon rhieni a disgyblion.

### Presenoldeb

Er bod mae arweinwyr ysgolion arbennig yn cadarnhau bod presenoldeb y disgyblion sy'n gymwys i gael darpariaeth ar y safle yn dda, dywed llawer o arweinwyr mewn UCDau fod presenoldeb disgyblion yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyfredol yn isel, yn gyffredinol. Maent yn cadarnhau bod y gyfradd ar gyfer disgyblion iau yn uwch nag ar gyfer disgyblion hŷn, gan mwyaf, yn enwedig y rhai yng nghyfnod allweddol 4 na allant fanteisio ar eu cwricwlwm llawn arferol oherwydd y cyfyngiadau.

Mae bron pob arweinydd ar draws y ddau fath o leoliad yn cadarnhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb disgyblion unigol. Er enghraifft, maent yn disgrifio sut mae ychydig o rieni a gofalwyr yn gwarchod eu hunain, a bod eraill yn poeni am y posibilrwydd o ddal yr haint os bydd eu plentyn yn teithio oddi gartref. Mae'r rhieni a'r gofalwyr hyn o'r farn bod presenoldeb wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r UCD yn peri gormod o risg, yn enwedig os oes un neu fwy o ddisgyblion a staff yn yr ysgol neu'r UCD eisoes wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19.

### Hyrwyddo lles staff

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod cynnal lles staff yn flaenoriaeth allweddol o hyd. Mae llawer ohonynt yn parhau i gadarnhau gwaith caled ac ymrwymiad personol eu staff yn ystod y cyfnod hwn, wrth ddarparu dysgu wyneb-yn-wyneb a dysgu o bell. Yn benodol, maent yn sôn am barodrwydd staff i barhau i fod yn hyblyg ac ymateb yn gadarnhaol i newidiadau cyson, yn aml ar fyr rybudd.

Disgrifia'r rhan fwyaf o arweinwyr sut maent wedi bodloni anghenion iechyd a chyfrifoldebau gofalu penodol staff, gan gynnwys y rhai sy'n gwarchod oherwydd eu cyflyrau iechyd sylfaenol eu hunain neu aelodau o'u haelwydydd. Maent yn disgrifio ystod o strategaethau a roddwyd ar waith i gefnogi lles staff a rheoli pryderon, gan gynnwys darparu'r gallu i fanteisio ar swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, sefydlu grwpiau lles a chyfryngau cymdeithasol i staff, cylchlythyrau wythnosol, waliau canmol rhithiol a boreau coffi rhithiol.

Mae'r lleiafrif o arweinwyr UCDau yn cadarnhau bod ychydig iawn o aelodau staff wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19, sydd wedi arwain at gyflwyno trefniadau hunanynysu ar draws yr UCD gyfan, fel arfer. Maent yn cadarnhau sut mae'r achosion hyn wedi cynyddu lefelau gorbryder ymhlith disgyblion, rhieni a staff.

Mae llawer o arweinwyr UCDau yn crybwyll sut mae absenoldebau staff yn gysylltiedig â COVID-19, a oedd mewn un achos yn gyfwerth â hanner y staff, wedi gwaethygu'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli UCD sydd â nifer gymharol fach o staff i fodloni anghenion lles ac anghenion dysgu sylweddol a chymhleth disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, disgrifiodd sawl arweinydd yn yr UCDau y cysylltwyd â nhw sut maent yn rheoli darpariaeth pob oed, aml-safle, gan gynnwys cefnogaeth allgymorth a threfniadau tiwtora gartref, yn ogystal â chymorth arbenigol i ddisgyblion â chefndiroedd ac anghenion cymhleth.

Mae llawer o arweinwyr yn cadarnhau y bu'r diffyg eglurder a chysondeb o ran cymhwyso arweiniad Llywodraeth Cymru, sef y dylai ysgolion arbennig ac UCDau aros ar agor i gefnogi dysgwyr bregus, yn heriol. Mae'r anghysondeb hwn wedi cyfrannu at ddisgwyliadau y mae arweinwyr o'r farn eu bod yn afrealistig ymhlith rhieni ynghylch yr hyn y gallant ei ddarparu, ac mae wedi ychwanegu at y pwysau y mae uwch reolwyr yn eu hwynebu wrth iddynt geisio cydbwyso ystyriaethau o ran risg â sut y dylent flaenoriaethu a mynd i'r afael ag anghenion disgyblion a'u teuluoedd.

## Hyrwyddo dysgu

### Addysgu

Mae arweinwyr ym mhob ysgol arbennig ac UCD yn cadarnhau bod staff addysgu yn defnyddio ystod o ddulliau gwahanol i gynorthwyo disgyblion i ymgysylltu â'u dysgu yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol hwn. Ym mron pob achos, mae arweinwyr yn crybwyll bod staff wedi adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf i wella cydlynu a chyflwyno addysgu ar gyfer dysgu ar y safle ac o bell, gan gynnwys pecynnau dysgu ar-lein a chopïau papur pecynnau dysgu o bell.

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod darpariaeth yn cael ei harwain gan anghenion disgyblion unigol yn yr ysgol neu'r UCD o hyd, a bod ffocws cryf ar ddatblygu'r medrau a nodwyd yng nghynllun addysg unigol pob disgybl. Mae llawer ohonynt yn disgrifio sut mae cynlluniau addysgu yn adlewyrchu'r cyfle i ddisgyblion ddatblygu medrau ychwanegol gartref, lle bo hynny'n briodol. Esbonia arweinwyr yn y rhan fwyaf o leoliad bod y staff wedi parhau i weithio â'u dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn parhau i fynd i'r afael â'r ystod lawn o anghenion disgyblion yn eu hysgolion.

Yn **Ysgol Bryn Castell**, mae therapi celf, therapi cerddoriaeth, TGCh a sesiynau lles wedi'u cynnwys yn yr addysgu a'r profiadau dysgu wythnosol. Caiff prosiectau bach eu defnyddio yn lle'r pynciau tymhorol traddodiadol i rannu dysgu'r disgyblion yn ddarnau bach, a helpu i gynnal eu diddordeb ar draws ystod eang o feysydd pwnc gwahanol. Er enghraifft, cymerodd disgyblion ran mewn gweithgaredd ar-lein i adeiladu tai i gynrychioli tŷ Ann Frank fel rhan o wythnos yr Holocost. Rhannodd disgyblion eu gweithgareddau yn y gwasanaeth.

At ei gilydd, mae staff addysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig ac UCDau yn parhau i ddarparu cymysgedd o weithgareddau ar-lein a phecynnau o adnoddau dysgu i ddisgyblion a'u teuluoedd. I ychwanegu at y sesiynau hyn, darperir pecynnau adnoddau i rieni sy'n cynnwys popeth sydd ei angen ar rieni neu ofalwyr i gynnal y sesiwn gartref, er enghraifft cyfarwyddiadau, offer i gwblhau pob tasg a phecynnau symbolau, yn ôl yr angen.

Er gwaethaf anhawster parhaus mynd i'r afael ag anghenion cymhleth llawer o ddisgyblion wrth ddysgu gartref, mae arweinwyr yn cadarnhau eu bod yn atgynhyrchu'r profiad o fod ar y safle cymaint ag y bo modd. Mewn llawer o ysgolion arbennig, mae staff wedi datblygu amserlen 'rithiol' i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu trefn ar gyfer gweithio gartref. Mae hyn yn cynnwys sesiynau egnïol dynodedig yn ystod y diwrnod ysgol i leihau'r amser y mae disgyblion o flaen sgrin.

Yn ogystal, mae llawer o ysgolion arbennig yn parhau i annog profiadau dysgu yn yr awyr agored fel rhan o'r profiad dysgu o bell.

**Darpariaeth ar-lein**

Disgrifia llawer o arweinwyr ar draws y ddau fath o safle sut mae staff, yn ystod y cyfnod rhwng y cyfnodau clo cenedlaethol cyntaf a chyfredol, ar ôl mynd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad at offer priodol a chysylltedd, gan mwyaf, wedi cynyddu a mireinio'r defnydd o blatfformau digidol i wella addysgu a phrofiadau dysgu.

Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn disgrifio sut y cynhwysodd staff addysgu fwy o ddysgu ar-lein mewn gwersi tra'r oedd disgyblion ar y safle yn ystod y cyfnod o fis Medi i fis Rhagfyr, er mwyn datblygu medrau cymhwysedd digidol disgyblion ymhellach a chynyddu eu hannibyniaeth wrth ddysgu. Mae ychydig o arweinwyr yn cadarnhau y rhoddodd y cyfnod hwn gyfle i staff arbrofi â phlatfformau a gwasanaethau gwe gwahanol ar gyfer dysgu o bell hefyd. O ganlyniad, ar gyfer y cyfnod clo cenedlaethol hwn, maent naill ai wedi symud tuag at blatfform neu wasanaeth gwe unigol er mwyn lleihau unrhyw ddryswch i ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, neu wedi cadw gwasanaethau gwe gwahanol i fodloni anghenion dysgu disgyblion unigol yn well.

Mewn llawer o ysgolion arbennig, mae arweinwyr yn disgrifio sut maent wedi dyrannu cyfrifoldebau staff i gefnogi a chydlynu agweddau ar ddysgu o bell. Er enghraifft, mewn un ysgol arbennig, yn ogystal â darparu cymorth ar y safle, mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi addysgu o bell drwy gefnogi a chyflwyno sesiynau addysgu byw. Maent yn llunio ac yn danfon adnoddau ffisegol ac yn llunio fideos i hybu ymgysylltiad disgyblion a modelu dysgu.

Mae arweinwyr ysgolion yn cadarnhau bod staff addysgu yn lanlwytho ystod eang o ymarferion, gweithgareddau ac adnoddau cymorth therapiwtig a lles i ddisgyblion a theuluoedd yn berthynol i'w hanghenion, oed, cyfnod ac adran, yn ogystal â chynnal sesiynau byw. Mae arweinwyr yn crybwyll sut mae hyder staff a'u harbenigedd wrth ddefnyddio'r dulliau hyn ers adeg y cyfnod clo cyntaf wedi datblygu'n raddol. Maent yn cadarnhau bod rhieni'n dod yn fwyfwy hyderus hefyd wrth lanlwytho adborth ar ddysgu gartref ar ffurf lluniau a fideos.

Mae lleiafrif o arweinwyr UCDau yn sôn am y defnydd mwy cyson o ffrydio byw yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol hwn. Maent yn disgrifio sut mae strategaethau, fel cadw at grwpiau bach a chynorthwywyr addysgu yn monitro'r cyfleuster sgwrsio ym mhob sesiwn, ac ymateb lle bo hynny'n briodol, yn helpu i wella profiadau dysgu ar-lein byw disgyblion.

Dywed arweinwyr llawer o UCDau y bu cynnydd yn y galw gan ddisgyblion a rhieni am gopïau papur o becynnau dysgu, yn hytrach na chymryd rhan mewn dysgu ar y safle neu ddysgu ar-lein. Maent yn disgrifio sut mae mwy o rieni a gofalwyr yn crybwyll bod eu plant yn fwy amharod i gymryd rhan mewn dysgu ar-lein oherwydd bod pethau'n gwrthdynnu eu sylw'n rhy hawdd a'u bod eisiau defnyddio'r dyfeisiau i chwarae gemau ar-lein. Mae rhieni eraill yn mynegi pryderon ynghylch eu plant yn treulio gormod o amser o flaen sgrin.

Dywed llawer o arweinwyr ysgolion arbennig fod ansawdd, cynnwys ac addasrwydd ffrydio byw wedi gwella ers y cyfnod clo cyntaf. Fodd bynnag, yn gyffredinol, maent

yn cadarnhau na fu unrhyw gynnydd yn nifer y rhyngweithiadau byw. Caiff ffrydio byw ei ddefnyddio'n un o nifer o opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno addysgu. Fodd bynnag, mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector yn parhau i grybwyll nad yw dysgu ar-lein, a ffrydio'n fyw yn benodol, yn bodloni anghenion pob disgybl ag anghenion cymhleth. Er enghraifft, dywed arweinwyr y gall ffrydio'n fyw roi gormod o bwysau ar rieni i fod yn barod ar amser penodol. Er mwyn goresgyn yr anhawster hwn, caiff gwersi eu recordio mewn llawer o ysgolion er mwyn i'r teulu allu manteisio arnynt pan fydd yn gyfleus.

**Cyfathrebu a rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu**

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig yn cadarnhau bod staff yn parhau i wneud defnydd cynyddol o apiau cyfathrebu addysgol i gadw mewn cysylltiad â disgyblion a'u teuluoedd, hyd yn oed pan fydd disgyblion yn hunanynysu neu'n gwarchod eu hunain. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn cadarnhau sut mae hyder ac arbenigedd staff, disgyblion a rhieni wrth ddefnyddio'r dulliau hyn wedi datblygu, yn ogystal â'r defnydd coeth o'r dyfeisiau hyn ers y cyfnod clo cyntaf.

Mae llawer o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn amlinellu sut mae staff wedi cryfhau strategaethau ymhellach i helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu eu plant. Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r arweiniad pwrpasol y mae staff addysgu wedi'i ddatblygu i helpu rhieni a gofalwyr i gynorthwyo eu plant yn well â dysgu ar-lein. Mae pynciau'n cynnwys, er enghraifft, sut i gadw'n ddiogel ar-lein, a datblygu'r wybodaeth a'r medrau i lywio drwy Hwb. Mewn un UCD, mae staff wedi addasu gweithgareddau addysgu i gynnwys profiadau fel 'Fresher Friday', sef gweithgaredd lle mae disgyblion, rhieni a gofalwyr yn cwblhau tasg y tu allan, ac yna'n ei rhannu ar-lein ag aelodau'r dosbarth a staff.

Mae staff yng **Nghanolfan Ddysgu Sir Benfro** yn cydweithio â disgyblion, rhieni a gofalwyr i ddatblygu medrau mewn defnyddio technoleg i fanteisio ar sesiynau wedi'u ffrydio'n fyw a dysgu ar-lein. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cyflwyno'r gwersi, ac yn defnyddio ystafelloedd trafod i gefnogi grwpiau llai o ddisgyblion neu gynnig cymorth ychwanegol un-i-un. Os bydd disgyblion neu rieni a gofalwyr yn cael trafferthion, mae staff ar gael i ateb unrhyw gwestiynau. Lle y bo'n briodol, caiff adnoddau ychwanegol eu defnyddio i dargedu a chefnogi disgyblion neu deuluoedd penodol. Mae arweinwyr yn crybwyll y bu'r strategaeth hon yn llwyddiannus, a bod ychydig iawn o ddisgyblion yn peri pryder, a phob un o'r disgyblion a'r teuluoedd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff.

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cadarnhau bod yr heriau y mae llawer o rieni a gofalwyr yn eu hwynebu o ran cefnogi dysgu eu plant gartref wedi cynyddu ers y cyfnod clo cenedlaethol blaenorol. Gallai hyn fod oherwydd natur gymhleth anghenion eu plant, diffyg medrau i gefnogi dysgu, yn ogystal â'r pwysau cynyddol y mae rhieni yn ei wynebu wrth geisio cydbwyso dysgu gartref â chyfrifoldebau eraill yn ystod y cyfnod estynedig hwn.

**Monitro ansawdd yr addysgu**

Mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector yn cadarnhau eu bod wedi mireinio dulliau addysgu a dysgu yn ystod y pandemig, fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso

a chynllunio gwelliant. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, adborth o arolygon disgyblion, rhieni a gofalwyr, a monitro ymgysylltiad disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn agosach.

Mae'r newidiadau a wnaed yn cynnwys diwygio strwythur y diwrnod ysgol i sicrhau bod addysgu a dysgu ar y safle yn alinio'n agosach ag addysgu a dysgu o bell. Yn benodol, mae llawer o arweinwyr UCDau yn cadarnhau sut mae addysgu a dysgu o bell yn gyffredinol debyg i ddarpariaeth ar y safle erbyn hyn, ond wedi'i haddasu er mwyn helpu i sicrhau ymgysylltiad a her i'r disgyblion sy'n dysgu gartref. Er enghraifft, mae ychydig o UCDau wedi canolbwyntio mwy ar hyrwyddo dysgu'n annibynnol drwy ddefnyddio gweithgareddau her medrau, y mae disgyblion yn gyfarwydd â nhw ac yn ymateb iddynt yn gadarnhaol.

Yn yr un modd, mae staff mewn un ysgol arbennig wedi ailwerthuso effaith amgylchedd yr ysgol ar ddisgyblion awtistig, ar sail eu profiad o addysgu yn ystod y pandemig. Erbyn hyn, mae cael gwared ar unrhyw ryngweithiadau a phontio diangen, darparu mwy o ddysgu yn yr awyr agored, a thargedu mwy o weithgareddau un-i-un neu mewn grwpiau bach yn strategaethau sy'n ffurfio rhan o ffordd arferol yr ysgol o weithio.

Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn sôn bod staff addysgu yn arbrofi ag ymagweddau gwahanol tuag at addysgeg. Er enghraifft, mae staff mewn un UCD yn canolbwyntio ar addysgu wedi'i arwain at ddisgyblion, er mwyn helpu disgyblion â'r pontio rhwng yr UCD a'r cartref yn ystod y cyfnod hwn, ac annog mwy o annibyniaeth. Dywed arweinwyr yn yr UCD hon fod y dull hwn yn gweithio'n dda, a bod cynnydd mewn dulliau datrys problemau a dulliau ymchwiliol, y mae disgyblion yn ymateb iddynt yn gadarnhaol.

Disgrifia arweinwyr yng **Nghanolfan Ddysgu Glan-y-nant** (UCD) sut maent wedi mireinio addysgu ar y safle, ac ar gyfer dysgu o bell, yn y bore i ddilyn strwythur bras o dair gwers: llythrennedd, rhifedd a thestun(au). Fel arfer, mae'r staff addysgu yn llunio a chynllunio tasgau byr i gadw ffocws disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n dysgu gartref. Mae disgyblion hefyd yn cwblhau eu heriau medrau dysgu ar-lein eu hunain mewn llythrennedd a rhifedd. Yn ystod y prynhawn, mae'r addysgu'n canolbwyntio ar dasgau lles, fel helfa drysor neu weithgareddau corfforol.

Disgrifia ychydig o arweinwyr ar draws ysgolion arbennig ac UCDau brosesau maent yn eu defnyddio i fonitro ansawdd addysgu ar-lein. Maent yn cadarnhau bod dulliau fel monitro gwasanaethau gwe yn ddyddiol i adolygu ansawdd cynllunio, adnoddau ac adborth yn adlewyrchu prosesau sicrhau ansawdd sefydledig, fel craffu ar waith disgyblion. Mewn un UCD, mae'r dull hwn wedi galluogi arweinwyr i nodi meysydd penodol ar gyfer gwella, gan gynnwys sicrhau bod adnoddau'n hygyrch i bob disgybl bob amser, a bod y cynnwys yn briodol i'w hanghenion unigol.

**Monitro ymgysylltiad disgyblion**

Ym mron pob achos, mae arweinwyr yn cadarnhau eu bod yn monitro lefel ymgysylltiad disgyblion yn ofalus. Dywed llawer o arweinwyr eu bod yn gwirio ymgysylltiad drwy gyfranogiad disgyblion mewn dosbarthiadau ar-lein, yn edrych ar

waith a lanlwythwyd ac yn monitro'r cyfleuster sgwrsio mewn gwersi byw. At ei gilydd, mae arweinwyr ysgolion arbennig yn haeru bod ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu yn dda, ac yn nodi bod mwy o gyfathrebu ac ymgynghori â rhieni wedi helpu i wella hyn.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn teimlo bod gwaith yr ysgol i fonitro ymgysylltiad disgyblion dros amser wedi helpu i nodi meysydd penodol i'w gwella. Er enghraifft, mewn un ysgol arbennig, targedwyd disgyblion na wnaethant ymgysylltu yn ystod y cyfnod clo cyntaf i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae ychydig o arweinwyr yn parhau i grybwyll eu bod yn cael anhawster â lefelau ymgysylltu â dysgu o bell ar gyfer ychydig o ddisgyblion awtistig. Nodant fod y disgyblion hyn yn gweld eisiau strwythur yr ysgol, nad yw'n hawdd ei ail-greu gartref.

Mewn lleiafrif o achosion, dywed arweinwyr UCDau fod lefelau ymgysylltiad cyffredinol disgyblion yn uchel. Gan amlaf, mae hyn yn wir â disgyblion lle mae cymorth dwys ar waith i'w helpu i ymgysylltu â'u dysgu.

Mae arweinwyr yng **Nghanolfan Ddysgu Sir Benfro** (UCD) wedi nodi ychydig o ddisgyblion ag anawsterau dysgu ymddygiadol y mae angen cymorth dwys arnynt i gynnal ymgysylltiad cyson. Mae staff yr UCD yn cydweithio â'r awdurdod lleol sy'n defnyddio'r grant lles, yn rhannol, i gefnogi gweithgareddau targedig ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Bu ffocws allweddol ar weithgareddau i gefnogi'r disgyblion hyn tuag at bontio i'w lleoliadau ôl-UCD, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill, fel y darparwr addysg bellach lleol, Gwaith yn yr Arfaeth a Gyrfa Cymru. Dywed arweinwyr fod y dull rhagweithiol hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar gymell y grŵp hwn o ddisgyblion a lleddfu'r pryderon sydd ganddynt am eu camau nesaf.

Fodd bynnag, at ei gilydd, dywed llawer o arweinwyr UCDau fod lefelau ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu yn amrywio. Mewn tua hanner yr UCDau, mae arweinwyr yn mynegi pryder ynghylch lefelau gostyngol yr ymgysylltiad gan ddisgyblion Blwyddyn 11 yn benodol. Mewn ychydig o achosion, mae hyn oherwydd eu bod yn anfodlon mynychu ar y safle gan wybod nad yw eu cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd yn yr ysgol, ac efallai eu bod yn teimlo bod stigma ynghlwm wrth orfod mynychu'r UCD. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn cadarnhau bod disgyblion hŷn yn teimlo eu bod 'yn cael eu siomi gan y system', gan na allant fanteisio ar eu lleoliadau galwedigaethol a phrofiad gwaith arferol, neu gymorth lles arbenigol fel cwnsela wyneb-yn-wyneb. Mewn un UCD, mae arweinwyr yn disgrifio sut mae disgyblion Blwyddyn 11 yn fwyfwy cyndyn o ymgysylltu â dysgu ar y safle a dysgu o bell, ond eu bod yn ymgysylltu'n dda â staff ar gyfer cymorth bugeiliol. Maent yn crybwyll sut mae'r disgyblion hyn wedi colli hyder ac ymddiriedaeth, ac yn cyfeirio at beidio â gweld diben mewn dysgu oherwydd 'nad oes unrhyw beth i edrych ymlaen ato ar ddiwedd Blwyddyn 11'.

Yn ogystal, mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr UCDau yn mynegi pryderon ynghylch disgyblion sydd â lleoliadau cofrestru deuol yn ystod y cyfnod hwn. Maent yn disgrifio sut mae'r disgyblion hyn yn manteisio ar ddysgu ar y safle neu ddysgu o bell ar y dyddiau y maent wedi'u cofrestru yn yr UCD, ond nad ydynt yn derbyn neu'n manteisio ar addysg neu gymorth gan eu hysgolion prif ffrwd am weddill yr wythnos ysgol. Er enghraifft, lle mae ysgolion prif ffrwd ar agor, mae disgyblion â chofrestriad

deuol yn aml yn gwrthod manteisio ar leoliadau hollt. Mae hyn yn rhannol oherwydd pryderon rhieni ynghylch eu plant yn mynychu mwy nag un safle ar gyfer addysg, a chynyddu'r risg o ddal haint. Ar gyfer disgyblion eraill, nid yw eu darpariaeth cofrestru deuol yn cynnig neu'n darparu cymorth addysgu a dysgu uniongyrchol.

**Profiadau dysgu**

Dywed arweinwyr ym mron pob UCD ac ysgol arbennig eu bod yn parhau i addasu i orchmynion cyfnewidiol y pandemig drwy ddarparu ystod mor eang â phosibl o brofiadau dysgu i adlewyrchu anghenion gwahanol disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau fath o leoliad yn parhau i fynegi pryderon ynghylch effaith culhau'r cwricwlwm, a achoswyd gan y pandemig, ar ddatblygu medrau disgyblion. Yn benodol, maent yn crybwyll y cafwyd effaith ddifrifol ar sesiynau medrau yn gysylltiedig â gwaith a medrau bywyd ymarferol, sydd mor bwysig ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu disgyblion, annibyniaeth, gwaith tîm a hunan-barch.

Ar draws y ddau fath o leoliad, mae bron pob arweinydd yn disgrifio pwysigrwydd cysondeb a threfn i'w disgyblion o ran darparu ymdeimlad o strwythur a 'normalrwydd' i'w diwrnod. Dywed arweinwyr fod hyn yn wir ar gyfer pob disgybl, p'un a ydynt yn mynychu darpariaeth ar y safle, yn dysgu gartref neu'r ddau. Mewn un ysgol arbennig, er enghraifft, mae pob disgybl yn rhan hŷn yr ysgol yn mewngofnodi erbyn 9.15am i gofrestru a mynd drwy eu cynlluniau dysgu ar gyfer y dydd â'r staff. Ar ddiwedd y dydd, mae'r holl ddisgyblion a'r staff yn cyfarfod i fyfyrio ar eu cyflawniadau yn ystod y dydd.

Yn **Ysgol Hafod Lon**, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu gartref yn ystod y cyfnod clo cyfredol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi ymdrechu i sicrhau bod cyn lleied o amharu â phosibl ar yr amserlen a'r cwricwlwm arferol i'r dysgwyr hyn. Mae gweithgareddau'r bore yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau a thargedau disgyblion unigol. Mae gweithgareddau'r prynhawn ar gyfer disgyblion cynradd wedi'u seilio ar waith thematig, tra mae disgyblion uwchradd yn parhau i ddilyn y cwricwlwm 6-wythnos cylchdroadol. Mae pob disgybl yn cael sesiwn addysg gorfforol ar-lein cyn amser cinio. Rhoddir tasgau ychwanegol, fel glanhau eu hystafell, sugno llwch neu helpu â'r ailgylchu, i'r disgyblion sy'n gallu gwneud hynny. Mae sesiynau canu ar-lein â'r athro cerdd ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion bob dydd, ac mae 'llyfrau'r wythnos' i ddisgyblion o oed gwahanol ar draws yr ysgol, lle mae'r cynorthwywyr addysgu yn darllen ar goedd ac yn arwyddo'r storïau i ddisgyblion gartref.

Mae arweinwyr yn y ddau fath o leoliad yn cadarnhau bod trefniadau'r cwricwlwm yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo iechyd emosiynol a lles eu disgyblion. Dywed llawer o arweinwyr ysgolion arbennig fod staff addysgu'n integreiddio dulliau therapiwtig mewn gwersi drwy gydol y dydd, a thrwy sesiynau ymarfer corff fel dawnsio a milltir y dydd. Disgrifia llawer o arweinwyr UCDau sut mae'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wrth wraidd pob agwedd ar gyflwyno'r cwricwlwm.

Cwblhaodd disgyblion yng **Nghanolfan Ddysgu Glanynant** brosiectau lles â ffocws cryf ar ymgysylltu â'r gymuned cyn ac yn ystod y cyfnod clo cyfredol. Er enghraifft, adeg y Nadolig, canolbwyntiodd disgyblion ar y thema 'meddwl am bobl eraill', y gwnaethant ei datblygu'n wreiddiol drwy'r cyngor ysgol. Gwnaethant gynllunio a threfnu raffl fawr i brynu anrhegion i ddiolch i staff y GIG yn yr ysbyty lleol. Casglodd y disgyblion anrhegion yn lleol, cynnal y raffl, gwerthu tocynnau a lapio bron i 150 o anrhegion i staff yn yr ysbyty. Gwnaeth sawl aelod staff o'r ysbyty, actorion lleol a chenedlaethol, awduron ac enwogion o'r byd chwaraeon sylwadau ar lwyddiant y disgyblion ar ffrwd Twitter yr UCD. Dywed arweinwyr fod disgyblion yn dychwelyd i'r negeseuon cadarnhaol hyn ym mis Ionawr yn llawn cymhelliant, a bod eu cyfraniad at y prosiect wedi gwella eu hyder a'u hunan-barch yn fawr.

**Darpariaeth ar gyfer medrau**

Disgrifia'r rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau fath o leoliad sut mae'r staff addysgu'n ceisio sicrhau bod profiadau dysgu'n parhau i hyrwyddo datblygu medrau sy'n berthnasol i anghenion a galluoedd disgyblion, a'u llwybrau dilyniant yn y dyfodol. Er enghraifft, mae llawer o arweinwyr ysgolion arbennig yn disgrifio sut mae cynllunio'n cynnwys ffocws cryf ar ddatblygu medrau annibyniaeth disgyblion.

Yn **Ysgol Heol Goffa**, mae staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau drwy gydol yr wythnos ysgol i ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn recordio tasgau fel 'sut i wneud eich gwely', 'sut i newid eich gwely' a 'sut i baratoi brecwast'. Mae disgyblion yn defnyddio'r sesiynau a recordiwyd i ymarfer y medrau hyn gartref. Mae rhieni'n lanlwytho lluniau o'r disgyblion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau drwy ddefnyddio ap. Dywed y pennaeth y bu'r gweithgareddau hyn a'r arweiniad a roddwyd gan staff yn y gwersi yn arbennig o ddefnyddiol i deuluoedd.

Mae llawer o arweinwyr UCDau yn cadarnhau sut mae'r staff addysgu yn parhau i gefnogi a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Yn ogystal, maent yn disgrifio'r ffocws cynyddol ar wella medrau TGCh disgyblion yn ystod y pandemig, a sut maent wedi parhau i addasu'r cwricwlwm i wella medrau disgyblion o ran defnyddio offer TGCh a phlatfformau dysgu. Mae'r ffocws hwn wedi galluogi disgyblion i fanteisio ar ddysgu'n fwyfwy annibynnol wrth ddysgu gartref.

**Ymatebion i'r cyfyngiadau**

Er bod y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn parhau i fynegi pryderon ynghylch effaith cyfyngiadau ar allu disgyblion i fanteisio ar gyfleoedd ymarferol a galwedigaethau oddi ar y safle, mae llawer ohonynt yn cynnig enghreifftiau o sut mae staff yn ymateb yn greadigol i ail-greu'r cyfleoedd hyn ar y safle, cyhyd ag y bo modd. Mewn un UCD, lle mae'r athrawon fel arfer yn cynllunio gweithgareddau ymarferol ar gyfer gwyddoniaeth, mae staff yn cynllunio ymchwiliadau y gall disgyblion fanteisio arnynt ar y safle a gartref. Er enghraifft, yn ddiweddar, archwiliodd disgyblion y pwnc newid cyflwr wrth wneud cacen siocled fel rhan o'r cwricwlwm gwyddoniaeth.

Yn **Ysgol Tir Morfa**, roedd disgyblion yn gallu gweithio yng nghaffi'r ysgol yn flaenorol, lle'r oeddent yn dysgu medrau annibyniaeth a chyfathrebu gwerthfawr yr oeddent yn gallu eu hatgyfnerthu yn ystod ymweliadau â'r gymuned leol. Er mwyn ymateb i'r cyfyngiadau a achoswyd gan y pandemig, bu'r ffocws ar ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau cynllunio a chyllidebu drwy brynu bwydydd ar-lein a threfnu iddynt gael eu danfon i'r ysgol. Hefyd, mae'r ysgol wedi trefnu darpariaeth i ddisgyblion baratoi a gwneud eu cinio eu hunain.

Mae ychydig o arweinwyr ar draws y ddau sector yn disgrifio sut maent wedi gallu defnyddio staff a adleoliwyd o'r awdurdod lleol i ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar ddysgu yn yr awyr agored.

Yn **Ysgol Y Llys**, mae aelod staff ychwanegol o ganolfan addysg awyr agored yr awdurdod lleol wedi'i leoli ar safle'r ysgol yn ystod y pandemig. Mae'r hyfforddwr yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion i ddysgu'n greadigol yn yr awyr agored. Mae'r pennaeth o'r farn fod y gweithgareddau hyn wedi helpu i gynyddu hyder a lles disgyblion, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth bynciol bwysig a medrau bywyd gwerthfawr, fel aros eu tro, datrys problemau a rheoli risg.

Mae mwyafrif yr arweinwyr yn disgrifio sut mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dibynnu ar ddefnyddio cyfleusterau hamdden lleol i fanteisio ar weithgareddau addysg gorfforol yn gyfyngedig iawn, gan fod pob canolfan hamdden ar gau o hyd. Hefyd, mae llai o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored, fel marchogaeth ac ysgol y goedwig. Yn ogystal, mae arweinwyr mewn ychydig o UCDau yn dweud bod eu darpariaeth addysg gorfforol ar y safle yn wael, gan fod diffyg lle addas i gyflwyno ystod amgen o weithgareddau y maent yn manteisio arnynt mewn canolfannau hamdden lleol, fel arfer.

**Darpariaeth ar gyfer tiwtora gartref**

Mewn UCDau lle mae arweinwyr yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth tiwtora gartref, mae arweinwyr yn crybwyll sut y bu addasu'r cwricwlwm i alluogi i'r disgyblion hyn fanteisio arno yn her ychwanegol, yn enwedig o ystyried y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n manteisio ar diwtora gartref am resymau meddygol, gan amlaf am resymau yn ymwneud ag iechyd meddwl a lefelau uwch o orbryder.

Yn **UCD Gogledd Powys**, mae'r UCD wedi addasu ei phlatfform digidol yn sgil cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu tiwtora gartref, er mwyn caniatáu mynediad llawn i'r disgyblion hyn. I ddechrau, roedd disgyblion tiwtora gartref yn cael mewnbwn gan diwtor am hyd at 10 awr yr wythnos yn eu cartrefi. A hwythau'n ddisgyblion cofrestredig atodol i'r UCD, nid oedd disgyblion yn gallu manteisio ar adnoddau'r UCD drwy Hwb nac adnoddau a ddarparwyd gan eu hysgol brif ffrwd. Erbyn hyn, mae'r athro â gofal wedi datrys y mater hwn ac wedi sicrhau y gall pob disgybl tiwtora gartref fanteisio ar Hwb. Erbyn hyn, gall pob disgybl tiwtora gartref fanteisio ar amserlen ar-lein a'r cwricwlwm llawn, gan gynnwys gwersi wedi'u ffrydio'n fyw gan staff yr UCD.

### Cyrchfannau a phontio

Ar draws y ddau fath o leoliad, dywed arweinwyr fod disgyblion hŷn, yn benodol, wedi dioddef o beidio â gallu manteisio ar ystod o gymorth a phrofiadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Yn benodol, mae'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar ymgysylltiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 o ran eu deilliannau mewn cymwysterau a threfniadau pontio.

> Yn **UCDau Gogledd a De Powys**, mae arweinwyr yn cadarnhau bod eu prif bryder yn ymwneud â manteisio ar leoliadau profiad gwaith a lleoliadau coleg. Yn draddodiadol, byddai'r rhain yn agwedd bwysig ar y cwricwlwm i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ar yr adeg hon o'r flwyddyn. I ddisgyblion sy'n bwriadu manteisio ar leoliad coleg ar ddiwedd Blwyddyn 11, amharwyd ar y paratoadau. Er enghraifft, mae arweinwyr o'r farn nad yw'r opsiwn o gael taith rithiol o gwmpas y coleg yn paratoi'n ddigonol ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae gan ddisgyblion bryderon y gallai llawer o ddysgu'r coleg fod ar-lein oherwydd y pandemig, a fyddai'n rhy heriol iddynt. O ganlyniad, mae disgyblion yn gyndyn i wneud ceisiadau i'r coleg.

O ganlyniad, mewn tua hanner yr UCDau, mae arweinwyr yn poeni am gynnydd posibl yn nifer y disgyblion hynny na fyddant mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ar ôl iddynt orffen eu lleoliad yn yr UCD. Mae hyn oherwydd eu bod o'r farn ei bod yn debygol na fydd disgyblion Blwyddyn 11 cyfredol yn cwblhau neu'n ennill y cymwysterau angenrheidiol i gefnogi lleoliadau coleg yn ddigon da. Mewn rhai achosion, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cais am leoliadau coleg oherwydd y maent yn amharod i feddwl am eu camau nesaf. Mewn un UCD, dywed arweinwyr eu bod yn trafod yr opsiynau ar gyfer y disgyblion hyn â'r awdurdod lleol. Credant y byddai disgyblion yn elwa ar y cyfle i aros yn yr UCD am flwyddyn ychwanegol er mwyn iddynt gyrraedd eu nodau.

### Cwricwlwm i Gymru

Er bod y rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau fath o leoliad yn cadarnhau bod athroniaeth, egwyddorion a dibenion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru wrth wraidd eu gwaith, dywed llawer o arweinwyr fod cynnydd o ran ei roi ar waith ar gamau amrywiol o ran ei ddatblygu. Mae mwyafrif yr arweinwyr yn cyfeirio at newidiadau o ran rolau staff a chyfrifoldebau arwain dros y meysydd dysgu a phrofiad (MDaPhau). Mae'r lleoliadau hyn yn cyfeirio at y cyfleoedd sydd wedi dod yn sgil y pandemig, yn enwedig o ran addasu trefniadau gwaith, sydd wedi rhoi amser iddynt fyfyrio a ffurfio darpariaeth y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, mwy o gydweithio rhwng staff wrth arbrofi â'r MDaPhau ar draws pynciau presennol, mapio darpariaeth bresennol ac arfaethedig, a mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff.

> Yng **Nghanolfan Ddysgu Sir Benfro**, mae staff yn defnyddio'r amser cyfredol i gynllunio a datblygu eu dulliau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Dywed yr athrawes â gofal y bu'n fwy hanfodol nag erioed i gyflwyno gwersi o ddiddordeb mawr i ennyn diddordeb disgyblion yn ystod y cyfnod hwn. Mae athrawon yn rhannu arfer orau o'u gwersi fel enghreifftiau i'w rhannu â chydweithwyr, ac yn defnyddio'r profiadau hyn i lywio eu trefniadau mapio a chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, mae'r UCD yn datblygu rôl cynorthwywyr addysgu i gynnwys mwy o gyfleoedd i'r staff hyn gyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm.

Yn **Ysgol Penmaes**, esboniodd y pennaeth y bu'r ysgol yn gweithio i ymgorffori agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru yn ei chynlluniau gwaith a'i haddysgu ers cryn amser. Mae wedi ad-drefnu ei chwricwlwm i gyd-fynd â'r meysydd dysgu a phrofiad, ac i ymgorffori'r pedwar diben yn llawn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r pennaeth yn croesawu'r cyfleoedd ar gyfer cynllunio thematig a ddarperir gan y rhain, ac mae o'r farn eu bod yn cynrychioli dilyniant naturiol o'r dull y mae'r ysgol wedi'i ddefnyddio erioed. Cadarnhaodd fod yr ychydig fisoedd diwethaf wedi caniatáu rhywfaint o seibiant i werthuso darpariaeth yr ysgol mewn perthynas ag agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae staff wedi cael cyfle i drafod a meddwl am agweddau gwahanol ar y diwygio, drwy weithio'n unigol neu mewn grwpiau bach, gyda ffocws penodol ar adolygu a chryfhau dull asesu'r ysgol.

Dywed ychydig o ysgolion eu bod wedi arafu eu cynllunio dros dro ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd, maent yn cyfeirio adnoddau at gefnogi lles eu disgyblion a'u teuluoedd.

## Darpariaeth a therapi

Yn gyffredinol, mae bron pob arweinydd ar draws y ddau fath o leoliad yn cadarnhau bod prosesau statudol ar gyfer adolygiadau blynyddol wedi parhau i gael eu cynnal drwy gydol y pandemig, yn unol â'r amserlenni gofynnol. Ym mron pob achos, mae ysgolion ac UCDau yn hwyluso'r cyfarfodydd hyn ar-lein, ac mae arweinwyr yn crybwyll y bu presenoldeb uchel gan rieni a darparwyr gwasanaethau. Mae ychydig o arweinwyr yn disgrifio sut maent yn gwneud trefniadau i rieni nad ydynt yn defnyddio platfformau ar-lein i fynychu'r cyfarfodydd hyn yn ddiogel wyneb-yn-wyneb.

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod cyfarfodydd amlddisgyblaethol rhwng cynrychiolwyr o'r ysgol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd wedi parhau i gefnogi anghenion disgyblion a nodwyd. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn disgrifio sut mae staff o wasanaethau arbenigol allanol yn mynychu ar y safle, erbyn hyn, i weithio'n uniongyrchol â staff yr ysgol, ac yn dechrau darparu cymorth wyneb-yn-wyneb i'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol.

Yn **Ysgol Cedewain,** cadarnhaodd y pennaeth fod y rhan fwyaf o ddarparwyr therapi yn mynychu'r safle'n bersonol, erbyn hyn, drwy ddilyn canllawiau a bennwyd yn asesiadau risg yr ysgol a'u hasesiadau risg eu hunain. Mae hyn yn cynnwys mewnbwn gan wasanaethau ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, therapi iaith a lleferydd, yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer namau ar y clyw a namau gweledol. Mae'r aelodau staff hyn yn gweithio'n unigol â disgyblion ac yn rhoi cyngor i staff yr ysgol, gan gynnwys darparu therapi i ddisgyblion sy'n dysgu gartref, lle mae ystyriaethau iechyd a diogelwch yn caniatáu.

Fodd bynnag, mae pryderon arweinwyr a godwyd adeg yr adroddiad diwethaf yn ymwneud ag arafwch a graddau cyfyngedig dychwelyd i weithio wyneb-yn-wyneb wedi cynyddu ers ein hadroddiad diwethaf. Mae llawer o'r arweinwyr y cysylltwyd â nhw y tro hwn yn disgrifio sut mae'r rhan fwyaf o gymorth gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn parhau i gael ei ddarparu drwy blatfformau ar-lein, ac na fu llawer o newid o ran sut mae gwasanaethau'n gweithredu ers y cyfnod clo cyntaf.

Mewn un ysgol, er enghraifft, disgrifiodd y pennaeth fel mai dim ond yn ddiweddar y mae staff o'r tîm iaith a lleferydd, a'r timau namau ar y clyw a namau gweledol, wedi ailddechrau gweld disgyblion wyneb-yn-wyneb unwaith eto, a bod y gwasanaethau therapi galwedigaethol a ffisiotherapi wedi'u lleihau'n sylweddol o hyd. Yn ogystal, fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch, nid yw sesiynau hydrotherapi wedi ailddechrau yn y rhan fwyaf o leoliadau.

Mae arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn parhau i bwysleisio'r effaith ar gynnydd a datblygiad disgyblion lle mae gwasanaethau'n cynnig cwnsela ac ymyriadau ar-lein yn unig. Er bod arweinwyr yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth hon, ar y cyfan, mae bron pob un ohonynt yn pwysleisio'r farn nad yw cymorth ar-lein yr un mor effeithiol â gwaith wyneb-yn-wyneb o ran bodloni anghenion disgyblion. Yn benodol, mae arweinwyr yn parhau i fynegi pryder ynghylch yr amrywiad o ran sut mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn darparu eu gwasanaethau ar draws byrddau iechyd yn genedlaethol, a'r pwysau cynyddol ar y gwasanaethau hyn. Mewn un UCD, cadarnhaodd yr athro â gofal nad yw'r cymorth a'r therapïau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwasanaethau AAA arbenigol yr awdurdod lleol ei hun wedi ailddechrau cynnig gwaith wyneb-yn-wyneb â staff, na disgyblion a rhieni. Mae disgyblion yn llai tebygol o ymgysylltu â chyfarfodydd rhithiol, ac mae rhieni'n dod yn fwyfwy rhwystredig â'r amseroedd aros cynyddol ar gyfer asesiad, gan gynnwys diagnosis.

Mewn ychydig o UCDau, mae arweinwyr yn disgrifio sut mae'r cymorth wyneb-yn-wyneb parhaus gan y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn parhau i gefnogi ymgysylltu â'r cwricwlwm â disgyblion y mae'n anoddach eu cyrraedd. Fodd bynnag, mae'r cymorth hwn yn anghyson ar draws awdurdodau lleol, a dywed lleiafrif o arweinwyr UCDau er y gall disgyblion fanteisio ar y darparwyr gwasanaeth hyn o bell o hyd, nid yw hyn yn ddigonol i fodloni anghenion disgyblion.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae llawer o arweinwyr ysgolion arbennig yn disgrifio sut mae ysgolion yn ymateb yn greadigol i gefnogi anghenion therapiwtig disgyblion eu hunain yn eu hamserlenni dyddiol, cyhyd ag y bo modd. Er enghraifft, mewn un ysgol lle nad yw'r ddarpariaeth ar y safle ar gyfer therapi iaith a lleferydd wedi ailddechrau hyd yn hyn, mae staff addysgu wedi cynyddu sesiynau medrau cyfathrebu cymdeithasol disgyblion fel mesur byrdymor. Mewn ysgol arall, disgrifiodd y pennaeth sut mae'r ysgol wedi ymestyn ei darpariaeth ar gyfer therapi ar-lein yn ystod y cyfnod hwn, ac yn rhannu sesiynau byw a sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw ar ystod eang o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys tylino synhwyraidd, storïau cymdeithasol a therapi chwarae.

Yn gyffredinol, lle mae ysgolion wedi buddsoddi mewn hyfforddi neu gyflogi staff â chymwysterau arbenigol yn flaenorol, mae arweinwyr yn teimlo'n hyderus bod staff yr ysgol wedi gallu gwneud iawn am unrhyw ddiffyg yn narpariaeth gwasanaethau a ddarperir yn allanol.

Yn hanesyddol, mae **Ysgol Maes Hyfryd** wedi rhoi pwyslais cryf ar hyfforddi staff i gyflwyno ymyriadau therapiwtig yn fewnol, yn hytrach na dibynnu ar staff allanol. Er enghraifft, mae un o'r athrawon yn therapydd galwedigaethau cymwysedig sy'n arbenigo mewn integreiddio synhwyraidd, mae dau gynorthwyydd addysgu lefel uwch yn darparu cymorth ar gyfer therapi iaith a lleferydd, ac mae dau o'r athrawon wedi'u cymhwyso i gynnig cymorth i ddisgyblion sydd â namau amlsynhwyraidd. O ganlyniad, mae'r pennaeth yn teimlo bod yr ysgol wedi gallu cynnal ei chymorth ar gyfer anghenion therapiwtig canfyddedig disgyblion yn ystod y cyfnod hwn, hyd yn oed pan fu therapyddion yn gweithio o bell ac mae darpariaeth wedi'i lleihau.

Mae ychydig o arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau yn cadarnhau'r rhwystredigaeth a fynegwyd gan staff ysgolion ynghylch disgwyliadau gwahanol staff arbenigol ysgolion ac awdurdodau lleol, a gweithwyr iechyd proffesiynol o ran gweithio wyneb-yn-wyneb â disgyblion. Maent yn disgrifio sut mae hyn wedi achosi dicter ymhlith staff ysgolion sy'n gweld yr anghysondeb hwn yn annheg, a'i fod yn gyfystyr ag 'un rheol i ni ac un i bobl eraill'. Mewn un UCD, mynegodd yr athro â gofal ei syndod bod swyddog iechyd a diogelwch, a swyddog presenoldeb a lles yr awdurdod lleol yn gallu mynychu'r ysgol a chyfarfod â staff allweddol, ond nad yw swyddogion AAA yn gallu gwneud hynny.

## Dysgu proffesiynol

Dywed bron pob arweinydd ar draws y ddau fath o leoliad eu bod wedi parhau i ddarparu rhaglen eang ac amrywiol o weithgareddau dysgu proffesiynol perthnasol i gefnogi anghenion disgyblion drwy gydol cyfnod y pandemig. Mae hyn cynnwys hyfforddiant gofynnol mewn meysydd gorfodol, fel diogelu a hylendid bwyd, yn ogystal â datblygiad proffesiynol ysgol gyfan i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella strategol yr ysgol neu'r UCD.

Mae llawer o arweinwyr yn cadarnhau eu bod yn parhau i gynllunio rhaglenni unigol pwrpasol wedi'u teilwra i anghenion datblygiad proffesiynol aelodau staff unigol. Mewn un ysgol arbennig, er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i'r staff ddatblygu eu harbenigeddau ymhellach mewn meysydd fel integreiddio synhwyraidd, strategaethau cyfathrebu neu mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm, fel mathemateg.

Mae tua hanner yr arweinwyr yn y ddau sector yn disgrifio sut maent wedi parhau i gryfhau cyfleoedd i staff ddatblygu eu dealltwriaeth o arfer sydd wedi'i llywio gan drawma, effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a sut i gefnogi iechyd meddwl a gwydnwch disgyblion. Mae'r pwyslais hwn yn adlewyrchu pryderon ynghylch effaith y pandemig ar les emosiynol a meddyliol disgyblion.

Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio sut mae staff wedi elwa ar ddarparwyr hyfforddiant ar-lein i alluogi staff i fanteisio ar ddysgu proffesiynol yn fwy hyblyg, er enghraifft wrth weithio gartref. Mae hyn wedi galluogi staff i fanteisio ar ystod ehangach o ddysgu proffesiynol ar adeg sy'n cyd-fynd â'u hymrwymiadau eraill.

Yn **Ysgol Bryn Derw,** mae'r ysgol wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddatblygu eu dysgu proffesiynol dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol ar-lein wedi cynnwys modiwlau i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion mewn meysydd fel datblygu medrau cyfathrebu disgyblion, a defnyddio systemau cyfathrebu drwy gyfnewid lluniau. Mae'r ysgol hefyd wedi elwa ar fideos a grëwyd gan ddau fyfyriwr therapi galwedigaethol yr ysgol at ddibenion dysgu proffesiynol. Mae gan gynnig gweithio gartref yr ysgol ddisgwyliadau clir i staff ddatblygu eu dealltwriaeth a'u harfer mewn agweddau fel Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgu (Cymru) a'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â lluniau adnoddau ar gyfer dysgu.

Fodd bynnag, mae ychydig o arweinwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cadw trosolwg ar y prosesau i staff ofyn am ddysgu a datblygiad proffesiynol, a manteisio arnynt. Mewn un ysgol arbennig, mae staff bellach yn nodi anghenion dysgu proffesiynol penodol a phersonol yn ôl anghenion eu dosbarth neu eu diddordebau personol ac mae arweinwyr yn gwerthuso addasrwydd yr hyfforddiant hwn yn erbyn blaenoriaethau gwella'r ysgol. Nid yw'r ysgol yn gofyn i staff fynegi diddordeb ynghylch unrhyw ddysgu proffesiynol newydd sy'n cael ei gynnig mwyaf, ond yn holi staff sydd â diddordeb sut maent yn bwriadu arwain a gwerthuso darpariaeth ar ôl y sesiwn dysgu proffesiynol.

Mewn lleiafrif o UCDau ac ysgolion arbennig, mae arweinwyr yn cadarnhau mai prif ffocws dysgu proffesiynol dros yr ychydig fisoedd diwethaf fu datblygu dulliau o ddefnyddio platfformau ar-lein i gefnogi dysgu o bell a chynnal cyfarfodydd. Maent yn crybwyll bod y sefyllfa gyfredol wedi eu galluogi i symud ymlaen â'r amcan hwn yn gyflym. Dros gyfnod byr, mae staff wedi dod yn fwyfwy cymwys ac yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg ddigidol. Mae staff yn fwy hyderus wrth roi cyngor ac arweiniad i rieni ar y platfformau hyn, ac wrth argymell apiau gwahanol i gefnogi dysgu gartref.

Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio sut mae staff yr ysgol neu'r UCD yn cymryd rhan mewn ystod eang o rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion sy'n berthnasol i arfer broffesiynol eu lleoliad. Mae hyn yn cynnwys fforymau wedi'u hwyluso gan y consortia rhanbarthol mewn meysydd fel dysgu cyfunol, datblygu llefaredd a'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â phrosiectau ymchwil dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, er enghraifft. Yn ogystal, mae llawer o arweinwyr yn disgrifio sut maent yn cydweithio ag ysgolion ac UCDau eraill, er enghraifft drwy rwydwaith penaethiaid UCDau Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Chymdeithasau Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru a Gogledd Cymru, i ddatblygu arfer yn ymwneud â'r agenda trawsnewid ADY a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae staff addysgu yn perthyn i rwydweithiau Hwb ar gyfer y MDaPhau gwahanol, ac yn rhwydweithio i ddatblygu adnoddau a rhannu arfer.